

# Atebion i Gwestiynau nas Cyrhaeddwyd yn y Sesiwn Llawn

## Answers to Questions not Reached in Plenary

**20 Gorffennaf 1999**  
**20 July 1999**

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[R] signifies the Member has declared an interest.

### Cwestiynnau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary

#### A-levels

**Q6 Jonathan Morgan:** Will the First Secretary make a statement on the future of A-levels and their role in enhancing the economic development of Wales? (OAQ486AG)

**The First Secretary:** A-levels and their vocational equivalents will continue to play a central role in education for learners over the age of 16. The reforms to the post-16 qualifications framework we announced earlier this year are designed to maintain high standards, encourage young people to follow a broader programme of study and promote lifelong learning. Our proposals for reforming post 16 education and training in Wales will enhance the opportunities available to gain qualifications for the benefit of individual learners, employers and the Welsh economy.

#### Arholiadau Safon Uwch

**C6 Jonathan Morgan:** A fydd y Prif Ysgrifennydd yn gwneud datganiad ar ddyfodol arholiadau Safon Uwch a'u swyddogaeth o safbwyt gwellt datblygiad economaidd Cymru? (OAQ486AG)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd arholiadau Safon Uwch a'r cymwysterau galwedigaethol sy'n cyfateb iddynt yn parhau i chwarae rhan ganolog mewn addysg ar gyfer dysgwyr 16 oed a hyn. Mae'r newidiadau i'r fframwaith cymwysterau ôl-16 a gyhoeddwyd gennym yn gynharach eleni wedi'u llunio er mwyn cynnal safonau uchel, annog pobl ifanc i ddilyn rhaglen astudio ehangach a hyrwyddo addysg am oes. Bydd ein cynigion ar gyfer diwygio addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru yn gwellt a'rh ymleu a'rh ymlogi sydd ar gael i ennill cymwysterau, er lles dysgwyr unigol, cyflogwyr a'r economi Cymreig.

#### NHS Service

**Q7 Kirsty Williams:** Does the First Secretary intend to make the NHS service in Wales more open, accountable and democratic? (OAQ496JS)

**The First Secretary:** Effectiveness, openness and accountability have been the key principles on which I approached the NHS since I became Secretary of State for Wales and in preparing the way for engagement by the National Assembly for Wales. I am pleased to see these principles being driven forward by Jane Hutt as Health Secretary and by the Health and Social Services Committee.

We are committed to ensuring that the public are involved in decisions concerning their health services and in the development of policy. This includes:

making sure that community representatives and the voluntary sector contribute to Health Improvement Programmes via their Local Health Groups;

providing the public with more and better information about the performance of NHS bodies;

asking users and carers about their experiences of NHS services;

ensuring openness and transparency in the process of appointing chairs and non-executive directors through open advertisement;

strengthening the voice of Community Health Councils through the federation structure.

### **Gwasanaeth yr NHS**

**C7 Kirsty Williams:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu gwneud gwasanaeth yr NHS yng Nghymru yn fwy agored, atebol a democraidd? (OAQ496JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Effeithiolwyd, bod yn agored ac atebolwyd yw'r prif egwyddorion y seiliais fy ngwaith gyda'r NHS arnynt ers imi ddod yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac wrth baratoi'r ffordd ar gyfer trosglwyddo'r gwaith i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr wyf yn falch o weld yr egwyddorion yma yn cael eu gyrru yn eu blaenau gan Jane Hutt yn rhinwedd ei swydd fel Ysgrifennydd Iechyd a chan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch eu gwasanaethau iechyd ac â datblygu polisi. Mae hyn yn cynnwys:

sicrhau bod cynrychiolwyr y gymuned a'r sector gwirfoddol yn cyfrannu i Raglenni Gwella Iechyd drwy gyfrwng eu Grwpiau Iechyd Lleol;

rholi mwy a gwell gwybodaeth i'r cyhoedd am berfformiad cyrff yn yr NHS;

gofyn i ddefnyddwyr a chynhalwyr am eu profiad o wasanaethau'r NHS;

sicrhau eu bod yn agored a thryloyw yn y broses o benodi cadeiryddion a chyfarwyddwyr anweithredol trwy hysbysebu agored;

cryfhau llais Cyngorau Iechyd Cymuned trwy'r strwythur ffederasiwn.

### **Immigration and Asylum Bill**

**Q8 Peter Black:** What consultations has the First Secretary had with Welsh local councils about the implications of the Immigration and Asylum Bill in Wales? (OAQ478JS)

**The First Secretary:** The Home Office have taken a lead on this issue and is providing advice and guidance to interested parties in Wales (including the Welsh Local Councils) via a Home Office co-ordinator.

From the outset of the passage of the Immigration and Asylum Bill, my officials together with officials from the Welsh Local Government Association, Welsh Refugee Council and

Cardiff County Council have met to consider the policy implications of the Immigration and Asylum Bill and its operational impact in Wales. These meetings have been superseded by meetings of a strategic steering group organised by the Welsh Local Government Association attended by the Home Office co-ordinator, which is looking specifically at implementing support to asylum seekers via the proposed 'Consortia Arrangements'. Assembly officials are involved in these meetings and are actively supporting the process to ensure that Welsh issues are addressed and that relevant information is disseminated to all agencies in Wales who have an interest in this matter.

### **Mesur Mewnfudo a Lloches**

**C8 Peter Black:** Pa ymgynghoriadau a fu rhwng y Prif Ysgrifennydd a chynghorau lleol Cymru ynghylch goblygiadau'r Mesur Mewnfudo a Lloches yng Nghymru? (OAQ478JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Swyddfa Gartref wedi cymryd yr awenau mewn perthynas â'r mater hwn ac mae'n rhoi cyngor a chanllawiau i'r rheini yng Nghymru sydd â diddordeb (gan gynnwys y Cyngorau Lleol Cymreig) drwy gyfrwng cydlynnydd yn y Swyddfa Gartref.

Ers i'r Mesur Mewnfudo a Lloches gychwyn ar ei hynt, mae fy swyddogion innau ynghyd â swyddogion o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Chyngor Sir Caerdydd wedi cyfarfod er mwyn ystyried goblygiadau polisi'r Mesur Mewnfudo a Lloches a'i effaith weithredol yng Nghymru. Mae'r cyfarfodydd yma wedi'u disodli gan gyfarfodydd o grwp llywio strategol a drefnwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yr oedd cydlynnydd y Swyddfa Gartref yn bresennol ynddynt, ac sy'n edrych yn benodol ar roi cefnogaeth i'r rheini sy'n ceisio lloches drwy gyfrwng y 'Trefniadau Consortia' arfaethedig. Mae swyddogion y Cynulliad yn gysylltiedig â'r cyfarfodydd yma ac maent wedi mynd ati'n frwd i gefnogi'r broses er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i ystyriaethau Cymreig a bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei lledaenu i bob asiantaeth yng Nghymru sydd â diddordeb yn y mater hwn.

### **Adequate Care for Rough Sleepers**

**Q9 Val Feld:** As part of his programme of social inclusion what plans does the First Secretary have to ensure that there is adequate day and night care for rough sleepers in Wales during the forthcoming winter of 1999-2000? (OAQ484JS)

**The First Secretary:** Twenty six schemes aimed at tackling rooflessness in Wales will be funded during 1999-2000 under Section 180 of the Housing Act 1996. These include nine nightshelters/direct access projects for rough sleepers and six schemes providing outreach/support services. In addition, the Supported Housing Revenue Grants funding (to Registered Social Landlords) makes provision of 737 bedspaces targeted to the single homeless. Of these, 350 are direct access. The remainder are resettlement projects, floating support and the provision of outreach services.

In addition, every year local authorities in Wales are invited to make specific bids for S180 revenue funding for winter projects for rough sleepers. In 1998-99, 10 schemes for this purpose were funded totalling £77,819.

### **Gofal Digionol i'r rhai a fydd yn Cysgu ar y Stryd**

**C9 Val Feld:** Fel rhan o'i raglen i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i sicrhau bod yna ofal digonol ddydd a nos i'r rhai a fydd yn cysgu ar y stryd yng Nghymru yn ystod gaeaf 1999-2000? (OAQ484JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd 26 o gynlluniau sydd â'r nod o fynd i'r afael â mater pobl ddi-do yng Nghymru yn cael eu hariannu yn ystod 1999-2000 dan Adran 180 Deddf Tai 1996. Mae'r rhain yn cynnwys naw lloches nos/prosiect mynediad uniongyrchol i'r rhai sy'n cysgu ar y stryd a chwe chynllun yn darparu gwasanaethau maes/cefnogi. Yn ogystal, mae'r arian a geir trwy'r Grantiau Refeniw Tai â Chefnogaeth yn gwneud darpariaeth ar gyfer 737 gwely, sydd wedi'u targedu ar gyfer pobl sengl ddigartref. O'r rhain, mae 350 yn welyau mynediad uniongyrchol. Mae'r gweddill yn brosiectau adsefydlu, prosiectau cefnogaeth hyblyg a phrosiectau darparu gwasanaethau maes.

Yn ychwanegol, bob blwyddyn gwahoddir awdurdodau lleol yng Nghymru i wneud bidiau penodol am arian refeniw Ad180 ar gyfer prosiectau gaeaf ar gyfer y rhai sy'n cysgu ar y stryd. Ym 1998-99, ariannwyd 10 cynllun, gwerth £77,819, i'r diben hwn.

### **Information Technology Equipment**

**Q10 David Davies:** Will the First Secretary list the companies that tendered for the contract to supply IT equipment for the Assembly? (OAQ476VB)

**The First Secretary:** The majority of the IT equipment and services required to support the National Assembly were provided under the terms of an existing contract, between the Welsh Office and Siemens Business Services Ltd, awarded in June 1996 following an EU competition. Initially, 53 companies responded to the advert in the European Journal of which eight finally submitted proposals. They were: Computacentar, IBM, Welsh Water, Siemens Nixdorf, Parity, ICL, EDS, MDIS. Of these, Siemens, ICL and Parity were selected for the detailed negotiation phase

### **Offer Technoleg Gwybodaeth**

**C10 David Davies:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd restru'r cwmnïau a gyflwynodd dendr am y contract i gyflenwi offer TG ar gyfer y Cynulliad? (OAQ476VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Darparwyd y rhan fwyaf o offer a gwasanaethau TG y mae eu hangen i gefnogi'r Cynulliad Cenedlaethol o dan delerau contract a oedd yn bod eisoes rhwng y Swyddfa Gymreig a chwmni Siemens Business Services Ltd, a ddyfarnwyd ym mis Mehefin 1996 yn dilyn cystadleuaeth yn yr UE. I ddechrau, ymatebodd 53 o gwmnïau i'r hysbyseb yn yr European Journal, gydag wyt ohonynt yn cyflwyno cynigion yn y pen draw. Y rheini oedd: Computacentar, IBM, Dwr Cymru, Siemens Nixdorf, Parity, ICL, EDS, MDIS. O'r rhain, dewiswyd cwmnïau Siemens, ICL a Parity ar gyfer y cam trafodaethau manwl.

### **Local Government Settlement**

**Q11 Carwyn Jones:** What timetable will be followed in determining this year's local government settlement? (OAQ479JS)

**The First Secretary:** The timetable for determining the Assembly's budget and the tabling for approval of the local government finance reports is set out in Standing Order No.19. The budget planning round process began last month when the Finance Secretary wrote to Committee chairmen asking them for their views on baselines and indicative baselines for the period 2000-2001 to 2002-2003.

In the meantime, consultations are continuing with representatives of local government. Peter Law chaired a meeting last Wednesday of the Settlement Working Group which discussed

the Welsh Local Government Association's assessment of need to spend in 2000-2001, both capital and revenue. We aim to reach consensus with local government about the formulae for distributing revenue and capital resources in the autumn. Copies of papers for these consultative meetings are available on the intranet.

### **Setliad Llywodraeth Leol**

**C11 Carwyn Jones:** Pa amserlen a ddilynir wrth benderfynu ar setliad llywodraeth leol eleni? (OAQ479JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Rhoddir manylion yr amserlen ar gyfer penderfynu cyllideb y Cynulliad a chyflwyno adroddiadau cyllid llywodraeth leol i'w cymeradwyo yn Rheol Sefydlog Rhif 19. Dechreuodd proses cylch cynllunio'r gyllideb y mis diwethaf pan ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Cyllid at gadeiryddion Pwyllgorau yn gofyn iddynt am eu sylwadau ar gyllidebau sylfaenol a chyllidebau sylfaenol amcanol ar gyfer y cyfnod 2000-2001 i 2002-2003.

Yn y cyfamser, mae ymgynghori yn parhau gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol. Cadeiriodd Peter Law gyfarfod o Weithgor y Setliad ddydd Mercher diwethaf, a drafododd asesiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o'r anghenion gwario yn 2000-2001, o ran cyfalaf a refeniw. Ein nod yw dod i gytundeb â llywodraeth leol ynghylch y fformiwlâu ar gyfer dosbarthu adnoddau refeniw a chyfalaf yn yr hydref. Mae copïau o bapurau ar gyfer y cyfarfodydd ymgynghori hyn ar gael ar y fewnrwyd.

### **Free Bus Travel for Pensioners**

**Q12 Lynne Neagle:** What plans are being made to implement free bus travel for pensioners in Wales? (OAQ492JS)

**The First Secretary:** Within the next two to three years I want state pensioners to enjoy free concessionary travel on buses in Wales. A steering group is being established chaired by a senior official and including representatives from local government, bus operators and consumer interests. The group will investigate the practical and financial implications of this policy for local authorities and the National Assembly, and recommend options for its implementation

### **Teithio Di-dâl ar Fysiau i Bensiynwyr**

**C12 Lynne Neagle:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill o ran caniatáu i bensiynwyr yng Nghymru deithio'n ddi-dâl ar fysiau? (OAQ492JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** O fewn y ddwy i dair blynedd nesaf yr wyf eisiau i bensiynwyr gwladol gael teithio yn rhad ac am ddim ar fysiau yng Nghymru. Mae grwp llywio yn cael ei sefydlu, a gaiff ei gadeirio gan uwch swyddog, ac a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol, cwmnïau bysiau a buddiannau defnyddwyr. Bydd y grwp yn ymchwilio i oblygiadau ymarferol ac ariannol y polisi hwn ar gyfer awdurdodau lleol a'r Cynulliad Cymreig, ac yn argymhell opsiynau ar gyfer ei weithredu.

### **Nuclear Waste (Trecwn)**

**Q13 Richard Edwards:** Is the First Secretary aware of the proposal to store nuclear waste at the former Royal Navy Armaments Depot site at Trecwn and will he give an assurance that he will do everything he can to prevent this proposal proceeding? (OAQ494JS)

**The First Secretary:** I understand that no application has been submitted for consent to store radioactive waste at Trecwn. If an application is made it will need to be considered on its merits and representations from interested parties would be fully considered at that stage.

I am aware of public discussion of such a proposal and the concern that this has raised locally over many months. Any such development requires both an appropriate planning consent from the local authority and an authorisation from the Environment Agency. The Assembly has powers to call in applications for planning permission and authorisation

#### **Gwastraff Niwclear (Trecwn)**

**C13 Richard Edwards:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn gwybod am y cynnig i storio gwastraff niwclear yn hen Safle Arfau'r Llynnes Frenhinol yn Nhrecwn ac a fydd yn rhoi sicrwydd y gwna ei orau glas i atal y cynnig hwn rhag mynd yn ei flaen? (OAQ494JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Deallaf nad oes unrhyw gais wedi'i gyflwyno am ganiatâd i storio gwastraff ymbelydrol yn Nhrecwn. Os gwneir cais yna bydd rhaid ei ystyried yn ôl ei haeddiant a rhoddid ystyriaeth lawn i sylwadau oddi wrth rai sydd â diddordeb yn y mater yr adeg honno.

Yr wyf yn ymwybodol o drafodaethau cyhoeddus ar gynnig o'r fath ac o'r pryder y mae hyn wedi'i godi yn lleol dros nifer o fisoeedd. Mae angen i unrhyw ddatblygiad o'r fath gael caniatâd cynllunio priodol gan yr awdurdod lleol ac awdurdod i symud ymlaen gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae gan y Cynulliad bwerau i alw i mewn geisiadau am ganiatâd cynllunio ac awdurdod.

#### **Financial Problems (Hospitals)**

**Q14 David Melding:** What action is the First Secretary taking to resolve the financial problems being experienced by half of all the hospitals in Wales? (OAQ485AG)

**The First Secretary:** I am very concerned at the level of cumulative deficit already incurred by health trusts and health authorities in NHS Wales and that, despite the unprecedented levels of increase in health authority allocations announced on 18 May, initial financial returns from NHS trusts and health authorities indicated that eight out of 16 trusts and one health authority are still forecasting a deficit this year. I shall be considering very carefully the findings of the NHS stocktake which the Health and Social Services Committee will be discussing on 21 July. Assembly officials will also be working closely with those trusts and health authorities which are in deficit to ensure that realistic and achievable recovery plans to restore financial balance are developed and implemented within the framework of the Health Improvement Programmes that the health authorities are currently developing.

#### **Problemau Ariannol (Ysbytai)**

**C14 David Melding:** Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i ddatrys y problemau ariannol sydd gan hanner ysbytai Cymru? (OAQ485AG)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn bryderus iawn ynghylch lefel y diffyg cronnol a geir eisoes yng nghyllidebau ymddiriedolaethau iechyd ac awdurdodau iechyd yn NHS Cymru a'r ffaith bod adroddiadau ariannol cyntaf oddi wrth ymddiriedolaethau NHS ac awdurdodau iechyd yn dangos, er gwaethaf y cynnydd nas gwelwyd ei debyg o'r blaen yn lefelau dyraniadau awdurdodau iechyd, a gyhoeddwyd ar 18 Mai, bod wyth allan o 16 ymddiriedolaeth ac un

awdurdod iechyd yn dal i ragweld diffyg eleni. Byddaf yn ystyried yn ofalus iawn ganfyddiadau ymarfer cymryd stoc yr NHS y bydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei drafod ar 21 Gorffennaf. Bydd swyddogion y Cynulliad hefyd yn gweithio'n agos iawn â'r ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd hynny sydd yn wynebu diffyg er mwyn sicrhau bod cynlluniau adfer realistig, y gellir eu gwireddu, i fantoli'r gyllideb yn cael eu datblygu a'u gweithredu o fewn fframwaith y Rhaglenni Gwella Iechyd y mae'r awdurdodau iechyd yn eu datblygu ar hyn o bryd.

### Average Growth Rates of the Welsh Economy

**Q15 Phil Williams:** What are the latest government estimates of the average growth rates of the Welsh economy over the period since May 1997? (OAQ495JS)

**The First Secretary:** There are no official estimates of growth rates of gross domestic product for any UK region. The Office of National Statistics provides estimates of nominal GDP. The Welsh figure for 1997 (the latest available one was published in January 1999) is £27.6 billion.

### Cyfraddau Twf Cyfartalog Economi Cymru

**C15 Phil Williams:** Beth yw amcangyfrifon diweddaraf y Llywodraeth o gyfraddau twf cyfartalog economi Cymru yn ystod y cyfnod ers Mai 1997? (OAQ495JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid oes unrhyw amcangyfrifon swyddogol o gyfraddau twf y cynnrych mewnwladol crynswth ar gyfer unrhyw ranbarth yn y DU. Mae'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol yn darparu amcangyfrifon o gynnrych mewnwladol crynswth amcanol. Y ffigwr Cymreig ar gyfer 1997 (cyhoeddwyd y ffigwr diweddaraf sydd ar gael ym mis Ionawr 1999) yw £27.6 biliwn.

### CEDAW Meetings (Government Delegation)

**Q16 Jenny Randerson:** Will the First Secretary confirm that the government delegation to recent Convention to Eliminate All Forms of Discrimination Against Women meetings held in the UN contained no representation from Wales and will he explain how delegates were selected? (OAQ483VB)

**The First Secretary:** The Government delegation to the recent CEDAW meetings held in the United Nations Convention in New York did not include a specific Welsh representative. Delegates were selected to reflect the main themes of the United Kingdom's presentation. Welsh Office officials—as they were then—were invited to attend but were unable to do so as preparations for the Assembly were in full flow at the time. Full briefing was provided to the delegation and I understand that the UK presentation was very successful.

### Cyfarfodydd CEDAW (Dirprwyd y Llywodraeth)

**C16 Jenny Randerson:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd gadarnhau nad oedd dirprwyd y llywodraeth i gyfarfodydd diweddar y Confensiwn i Ddiddymu pob Ffur ar Wahaniaethu yn Erbyn Merched a gynhalwyd yn y Cenhedloedd Unedig yn cynnwys unrhyw gynrychiolaeth o Gymru ac a wna esbonio sut y dewiswyd y dirprwyd? (OAQ483VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid oedd dirprwyd y llywodraeth i'r cyfarfodydd CEDAW diweddar a gynhalwyd yn y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd yn cynnwys cynrychiolydd penodol o Gymru. Dewiswyd dirprwyd er mwyn adlewyrchu prif themâu

cyflwyniad y Deyrnas Unedig. Gwahoddwyd swyddogion o'r Swyddfa Gymreig—fel yr oeddent bryd hynny—i fod yn bresennol ond nid oedd modd iddynt fynd i'r cyfarfodydd gan fod y paratoadau ar gyfer y Cynulliad yn eu hanterth ar y pryd. Rhoddwyd cyfarwyddiadau llawn i'r ddirprwyaeth a deallaf y bu cyflwyniad y DU yn un llwyddiannus iawn.

### The Image of Wales

**Q17 John Griffiths:** What strategy will be followed to heighten the image of Wales in Europe and across the world? (OAQ487VB)

**The First Secretary:** Developing the profile of Wales in Europe and internationally is one of my Cabinet's values and priorities, which I presented to the Assembly on 15 June. We aim to develop a coherent approach to optimise every opportunity that presents itself, create new ones and raise the profile of Wales on the international stage. The task will be led by a recently established International Relations Unit, supported by a Co-ordinating Group representing key public sector bodies in Wales

### Delwedd Cymru

**C17 John Griffiths:** Pa strategaeth a ddefnyddir i hybu delwedd Cymru yn Ewrop a ledled y byd? (OAQ487VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae datblygu proffil Cymru yn Ewrop ac yn rhyngwladol yn un o werthoedd a blaenoriaethau fy Nghabinet, a gyflwynais i'r Cynulliad ar 15 Medi. Ein nod yw datblygu dull o weithredu cydlynol er mwyn gwneud y mwyaf o bob cyfle sy'n codi, creu cyfleoedd newydd a chodi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol. Caiff y dasg ei harwain gan Uned Cysylltiadau Rhyngwladol a sefydlwyd yn ddiweddar, gyda chefnogaeth Grwp Cydlynu sy'n cynrychioli'r prif gyrrf sector cyhoeddus yng Nghymru.

### Well-paid Jobs

**Q18 Owen John Thomas:** Is the First Secretary aware of any plans to increase the number of well-paid jobs in Wales, specifically in the Rhondda Cynon Taff area? (OAQ491JS)

**The First Secretary:** It is our policy to encourage the move away from a Welsh economy based on the notion of our being a 'low cost' nation with low pay bills. 'Pathway to Prosperity' (published by the Welsh Office in July 1998) presents a range of strategies designed to further this new economic agenda for Wales. We have taken on board that new agenda.

There are a host of services already available from the Assembly and its staff and agencies. Our exports branch and the WDA provide a number of important services to exporters and potential exporters. The Regional Innovation Grant scheme helps individuals and small businesses develop ideas into something that may be commercially viable. Regional Selective Assistance is the main instrument of government financial support for businesses in the Assisted Areas of Wales. And the WDA and the Wales Tourist Board are actively helping, supporting and encouraging businesses in a variety of ways.

'Know-how Wales' is a new and particularly important initiative. It is designed to help small and medium sized businesses gain easier access to the wealth of expertise and technology which exist in Welsh colleges and universities and, by commercialising it more fully and effectively, to gain a vital competitive advantage.

Improving labour market skills is a key part of our approach, as set out in ‘Pathway to Prosperity’ and the draft National Development Strategy. The ‘Future Skills Wales’ project has identified some of the most important skills that employers look for. In Rhondda Cynon Taff, as elsewhere in Wales, it will only be possible to sustain better paid jobs if a good supply of people with relevant skills is available. We have a number of programmes to help improve workforce skills, for example Modern Apprenticeships

### **Swyddi sy'n Talu'n Dda**

**C18 Owen John Thomas:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn gwybod am unrhyw gynlluniau i sicrhau mwy o swyddi sy'n talu'n dda yng Nghymru, yn enwedig yn ardal Rhondda Cynon Taf? (OAQ491JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ein polisi yw hybu'r symudiad oddi wrth economi Cymreig sy'n seiliedig ar y syniad ein bod yn genedl 'gost isel' gyda biliau cyflog isel. Mae 'Ffordd i Ffyniant' (a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig ym mis Gorffennaf 1998) yn cyflwyno amrywiaeth o strategaethau a luniwyd i hyrwyddo'r agenda economaidd newydd hon i Gymru. Yr ydym wedi ysgwyddo cyfrifoldeb am yr agenda newydd hon.

Mae amryw o wasanaethau ar gael eisoes gan y Cynulliad a'i staff a'i asiantaethau. Mae ein cangen allforion ac Awdurdod Datblygu Cymru yn darparu nifer o wasanaethau pwysig i allforwyr ac allforwyr posibl. Mae'r cynllun Grant Arloesi Rhanbarthol yn helpu unigolion a busnesau bychain i droi syniadau yn rhywbeth a all fod yn fasnachol hyfw. Cymorth Rhanbarthol Dewisol yw prif offeryn cefnogaeth ariannol y llywodraeth ar gyfer busnesau yn Rhanbarthau Cymorth Cymru. Ac mae Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru yn helpu, yn cefnogi ac yn annog busnesau mewn amryw o ffyrdd.

Mae 'Gwybod Sut yng Nghymru' yn gynllun newydd arbennig o bwysig. Mae wedi'i lunio er mwyn helpu busnesau bychain a chanolig eu maint i gael gafael yn haws ar y doreth o arbenigedd a thechnoleg sydd ar gael mewn colegau a phrifysgolion yng Nghymru a thrwy ei fasnacheiddio yn llawnach ac yn fwy effeithiol, sicrhau mantais gystadleuol hanfodol.

Mae gwella sgiliau'r farchnad waith yn rhan allweddol o'n dull o weithredu, fel y nodir yn 'Ffordd i Ffyniant' a'r Strategaeth Ddatblygu Genedlaethol ddrfft. Mae'r prosiect 'Sgiliau Dyfodol Cymru' wedi nodi rhai o'r sgiliau pwysicaf y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt. Yn Rhondda Cynon Taf, fel mewn mannau eraill yng Nghymru, dim ond os oes digon o bobl ar gael, sydd â'r sgiliau perthnasol, y bydd modd cynnal swyddi sy'n talu'n well. Mae gennym nifer o raglenni i helpu i wella sgiliau'r gweithlu, er enghraifft Prentisiaethau Modern.

### **Arolwg Daearegol Prydeinig**

**C19 Cynog Dafis:** Sut y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu hyrwyddo gweithgarwch yr Arolwg Daearegol Prydeinig yng Nghymru? (OAQ480JS)

**Y Prif Ysgrifennydd :** Mae'r Cynulliad am weithio mewn partneriaeth ar draws pob sector a byddai'n croesawu gweld agor swyddfa newydd gan Arolwg Daearegol Prydain yng Nghymru. Fodd bynnag, mater iddynt hwy yw ble i agor swyddfa

### **British Geological Survey**

**Q19 Cynog Dafis:** How does the First Secretary propose to promote the activities of the British Geological Survey in Wales? (OAQ480JS)

**The First Secretary:** The Assembly wishes to work in partnership across all sectors and would welcome the establishment of a new British Geological Survey office in Wales. However, it is a matter for them to consider where to locate their offices.

#### **Weakest Members of Society (Disadvantage)**

**Q20 Geraint Davies:** Can the First Secretary give an assurance that the weakest members of society, that is, those with severe disabilities, will not end up being the most heavily disadvantaged as a result of having to reduce the numbers of hours they work to attend therapy sessions? (OAQ497JS)

**The First Secretary:** I would hope that all employers would adopt a fair and reasonable approach towards meeting the needs of their employees who have disabilities. In doing so, employers need to take into account their statutory responsibilities, in particular those in the Disability Discrimination Act 1995 which makes it unlawful to discriminate against current or prospective employees for a reason related to a person's disability. This may include failure to make reasonable adjustments such as allowing a person to be absent from work for rehabilitation, assessment or treatment.

The Disability Rights Commission, which is due to be established next year, will have an important role to play in promoting good practice among employers and service providers, and will be a central source of information and advice about the Disability Discrimination Act. It will also undertake formal investigations and provide advice and support in taking cases forward.

#### **Aelodau Gwannaf ein Cymdeithas (Anfantais)**

**C20 Geraint Davies:** A all y Prif Ysgrifennydd roi sicrwydd na fydd yr aelodau gwannaf yn ein cymdeithas, h.y. y rhai sydd ag anableddau difrifol, o dan hyd yn oed mwy o anfantais, gan y bydd yn rhaid iddynt weithio llai o oriau er mwyn mynchyu sesiynau therapi? (OAQ497JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Buaswn yn gobeithio y byddai pob cyflogwr yn mabwysiadu dull o weithredu teg a rhesymol o ran diwallu anghenion eu gweithwyr sydd ag anableddau. Wrth wneud hyn, byddai angen i gyflogwyr gymryd i ystyriaeth eu cyfrifoldebau statudol, yn arbennig y rheini yn Nedd Camwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 sydd yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon camwahaniaethu yn erbyn gweithwyr presennol neu ddarpar weithwyr am reswm yn ymwneud ag anabledd person. Gall hyn gynnwys peidio â gwneud newidiadau rhesymol megis caniatáu i berson fod yn absennol o'r gwaith ar gyfer gwaith adsefydlu, er mwyn cael ei asesu neu er mwyn cael triniaeth.

Bydd gan y Comisiwn Hawliau Anabledd, sydd i fod i gael ei sefydlu y flwyddyn nesaf, rôl bwysig i'w chwarae o ran hyrwyddo ymarfer da ymystg cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau, a bydd yn ffynhonnell ganolog ar gyfer cael gwybodaeth a chyngor am y Ddeddf Camwahaniaethu ar Sail Anabledd. Bydd hefyd yn ymgymryd ag ymchwiliadau ffurfiol ac yn rhoi cyngor a chefnogaeth o ran symud achosion yn eu blaenau.

#### **Showcasing the Work of Welsh Artists**

**Q21 Lorraine Barrett:** Are there any plans in place to use the spaces within the National Assembly building to showcase the work of Welsh artists? (OAQ493JS)

**The First Secretary:** Priority has been given to a smooth process of transition in establishing the Assembly but I strongly believe that the Assembly should provide a setting to promote the work of Welsh artists. I have asked officials to look at the issue during the recess and would welcome suggestions from Members.

### **Arddangos Gwaith Arlunwyr o Gymru**

**C21 Lorraine Barrett:** A oes unrhyw gynlluniau ar y gweill i ddefnyddio'r mannau yn adeilad y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn arddangos gwaith arlunwyr o Gymru? (OAQ493JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Rhoddwyd blaenoriaeth i broses drosglwyddo esmwyth wrth sefydlu'r Cynulliad ond credaf yn gryf y dylai'r Cynulliad ddarparu sefydliad i hyrwyddo gwaith arlunwyr o Gymru. Yr wyf wedi gofyn i swyddogion edrych ar y mater yn ystod y gwyliau a buaswn yn croesawu awgrymiadau gan yr Aelodau.

### **Poverty in Rural Wales**

**Q22 Nick Bourne:** What plans does the First Secretary have to alleviate poverty in rural Wales? (OAQ507VB)

**The First Secretary:** I am determined that all policies and programmes impacting on Wales's rural areas should help to combat poverty, minimise social exclusion and stem economic decline by developing a prosperous and sustainable rural economy, encouraging a greater range of employment opportunities offering higher incomes, promoting entrepreneurship and reducing inequalities in access to local services and recreational facilities.

The Social Inclusion Fund is providing £48 million over three years to tackle some of the most intractable problems faced by deprived communities across Wales. In addition, £1.75 million will be made available in 1999-2000 and in each of the following two years to continue and expand the People in Communities programme which is helping to combat deprivation in both rural and urban areas.

On 7 July, Members debated the Statement on rural issues prepared by the Rural Partnership. The document encompasses a broad range of economic, social, environmental and cultural issues of concern to rural Wales including the need to promote social inclusion and develop anti-poverty strategies. The Statement is being considered as part of the Agriculture and Rural Development Committee's forward work programme and its values will be promoted for the benefit of all rural communities in Wales.

### **Tlodi yng Nghefn Gwlad Cymru**

**C22 Nick Bourne:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i leddfu'r tlodi yng nghefn gwlad Cymru? (OAQ507VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yr wyf yn benderfynol y dylai'r holl bolisiau a rhaglenni sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig Cymru helpu i ymladd tlodi, lleihau allgáu cymdeithasol ac atal dirywiad economaidd trwy ddatblygu economi gwledig ffyniannus a chynaladwy, annog amrywiaeth ehangach o gyfleoedd am waith yn cynnig incymau uwch, hyrwyddo mentergarwch a lleihau anghydraddoldebau o ran cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau adloniant lleol.

Mae'r Gronfa Cynhwysol Cymdeithasol yn darparu £48 miliwn dros dair blynedd er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r problemau anoddaf eu trin a wynebir gan gymunedau difreintiedig ar draws Cymru. Yn ogystal, darperir £1.75 miliwn ym 1999-2000 ac ym mhob un o'r ddwy flynedd ganlynol er mwyn parhau ac ymestyn y rhaglen Pobl mewn Cymunedau sy'n helpu i ymladd diffyg braint mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd.

Ar 7 Gorffennaf, trafododd yr Aelodau y Datganiad ar faterion gwledig a baratowyd gan y Bartneriaeth Wledig. Mae'r ddogfen yn cwmpasu ystod eang o faterion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n peri pryer i'r Gymru wledig gan gynnwys yr angen i hybu cynhwysol cymdeithasol a datblygu strategaethau gwrth-dlodi. Mae'r Datganiad yn cael ei ystyried fel rhan o raglen waith y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig at y dyfodol a bydd ei werthoedd yn cael eu hybu er lles yr holl gymunedau gwledig yng Nghymru.

### **Countryside Council for Wales' Annual Grant-in-aid Budget**

**Q23 Janet Ryder:** Will the First Secretary clarify the role of the Environment and Local Government Committee and the Agriculture and Rural Development Committee in determining the Countryside Council for Wales's annual grant-in-aid budget, in view of the fact that its remit comes under the remit of both Committees? (OAQ512JS)

**The First Secretary:** The Subject Committees may each submit advice on priorities for the Assembly's expenditure and on the allocation of resources within their areas of responsibility. The Subject Committees' advice will be taken into account in drawing up the detailed budget, including the Countryside Council for Wales's grant-in-aid, for ratification by the Assembly.

### **Cymhorthdal Grant Blynnyddol Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

**C23 Janet Ryder:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd egluro rôl Pwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wrth bennu cymhorthdal grant blynnyddol Cyngor Cefn Gwlad Cymru, yng ngoleuni'r ffaith fod ei gylch gwaith yn dod o dan gylch gwaith y ddau bwyllgor? (OAQ512JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gall y ddau Bwyllgor Pwnc gyflwyno cyngor ar flaenoriaethau ar gyfer gwariant y Cynulliad ac ar ddyrrannu adnoddau o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Cymerir cyngor y Pwyllgorau Pwnc i ystyriaeth wrth lunio'r gyllideb fanwl, gan gynnwys cymhorthdal grant Cyngor Cefn Gwlad Cymru, i'w chadarnhau gan y Cynulliad.

### **Values for Work of the Assembly**

**Q24 Jocelyn Davies:** Will the First Secretary consider bringing forward an amendment to the adopted values for work of the Assembly to include our obligations to the European convention of human rights? (OAQ544JS)

**The First Secretary:** I intend to update the initial statement in the light of responses to the consultation document 'A Better Wales', issued on 16 July. I shall reflect on this point and a number of others made in the debate on 15 June in bringing forward any revisions.

### Gwerthoedd ar gyfer Gwaith y Cynulliad

**C24 Jocelyn Davies:** A fydd y Prif Ysgrifennydd yn ystyried cyflwyno gwelliant i werthoedd ar gyfer gwaith y Cynulliad a fabwysiadwyd, er mwyn cynnwys ein rhwymedigaethau i'r confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol? (OAQ544JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'n fwriad gennyf ddiweddar u'r datganiad cychwynnol yng ngoleuni ymatebion i'r ddogfen ymgynghori 'Cymru Well' a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf. Byddaf yn ystyried y pwynt hwn a nifer o bwyntiau eraill a wnaed yn ystod y ddadl ar 15 Mehefin wrth gyflwyno unrhyw newidiadau.

### Imported Chinese Anthracite

**Q25 Gwenda Thomas:** What action does the First Secretary propose against imported Chinese anthracite that has caused the loss of jobs in the South Wales valleys? (OAQ646VB)

**The First Secretary:** None since unfair imports of any commodity into Europe is a matter for the European Commission and it is the Department of Trade and Industry's role to make any relevant UK representations on such issues

### Mewnforion o Lo Caled o China

**C25 Gwenda Thomas:** Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu eu cymryd yn erbyn mewnforion o lo caled o China sydd wedi achosi i swyddi gael eu colli yng nghymoedd y De? (OAQ646VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dim, gan mai mater i'r Comisiwn Ewropeaidd yw unrhyw nwyddau sy'n cael eu mewnforio i Ewrop yn annheg a rôl yr Adran Masnach a Diwydiant yw cyflwyno unrhyw sylwadau sy'n berthnasol i'r DU ar faterion o'r fath.

### Imported Anthracite (Ex-British Coal Miners)

**Q26 Gwenda Thomas:** What assurances can the First Secretary give that ex-British Coal miners or their dependants will not be supplied with imported anthracite, either directly or as a component of manufactured fuels, when the new concessionary contract is let by the Department of Trade and Industry later this year? (OAQ647VB)

**The First Secretary:** None, since concessionary coal supply contracts are the responsibility of the Department of Trade and Industry

### Glo Caled Tramor (Cyn Lowyr Glo Prydain)

**C26 Gwenda Thomas:** Pa sicrhad y gall y Prif Ysgrifennydd ei roi na fydd cyn lowyr Glo Prydain neu eu dibynyddion yn derbyn glo caled tramor, naill ai yn uniongyrchol neu fel rhan o danwyddau gwneuthuredig, pan fydd y contract consesiwn newydd yn cael ei roi allan ar dendr gan yr Adran Masnach a Diwydiant yn ddiweddarach eleni? (OAQ647VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dim, gan mai cyfrifoldeb yr Adran Masnach a Diwydiant yw contractau consesiwn ar gyfer cyflenwi glo.

## UK Wide Committees (Representation from Wales)

**Q27 Janet Ryder:** Are there UK wide committees that deal with issues having a direct effect on Wales and what measures has the First Secretary taken to ensure adequate representation from Wales? (OAQ648VB)

**The First Secretary:** Many ministerial working groups and task forces chaired by various Government Ministers, deal with subjects that are part of the Assembly's functions. The Welsh Office ministerial team has been represented on a number of these groups, and I and the rest of the Cabinet are pleased to have the opportunity to take part in their work whenever the Assembly's interests suggest that this would be useful. Such participation can make a positive contribution to the Cabinet's task of communicating the Assembly's point of view to the development of policies that affect Wales. To give a couple of examples, Jane Hutt has already attended a meeting of the Children's Safeguards group, which is driving the Government's response to the Children's Safeguards Review—otherwise known as the Utting report—and which is chaired by the Secretary of State for Health. Kim Howells has extended an invitation to the Assembly to be represented on the DTI-led Ministerial Group on consumer affairs.

### Pwyllgorau Ledled y DU (Cynrychiolaeth o Gymru)

**C27 Janet Ryder:** A oes pwyllgorau ledled y DU sy'n ymdrin â materion sy'n effeithio'n unioingyrchol ar Gymru a pha gamau a gymerwyd gan y Prif Ysgrifennydd i sicrhau cynrychiolaeth ddigonol o Gymru? (OAQ648VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae llawer o weithgorau a thasgluoedd y gweinidogion, sy'n cael eu cadeirio gan wahanol Weinidogion yn y Llywodraeth, yn ymdrin â phynciau sy'n rhan o swyddogaethau'r Cynulliad. Mae tîm gweinidogion y Swyddfa Gymreig wedi cael ei gynrychioli ar nifer o'r grwpiau hyn, ac yr wyf innau a gweddill y Cabinet yn falch o gael y cyfle i gymryd rhan yn eu gwaith pa bryd bynnag y mae buddiannau'r Cynulliad yn awgrymu y byddai hyn yn ddefnyddiol. Gall cyfranogiad o'r fath wneud cyfraniad positif i dasg y Cabinet o adlewyrchu safbwyt y Cynulliad yn y broses o ddatblygu polisiau sy'n effeithio ar Gymru. Er enghraift, mae Jane Hutt eisoes wedi mynchu cyfarfod o'r grwp Amddiffynfeydd Plant, sy'n gyrru ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad o Amddiffynfeydd Plant—neu adroddiad Utting, fel y'i gelwir—ac sy'n cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd. Mae Kim Howells wedi estyn gwahoddiad i'r Cynulliad gael ei gynrychioli ar Grwp y Gweinidogion ar faterion defnyddwyr a arweinir gan yr Adran Masnach a Diwydiant.